cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

CANLLAW BAW CŴN: CRYNODEB



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

© Hawlfraint Cadwch Gymru'n Daclus 2026

CRYNODEB

Mae baw cŵn yn cael ei nodi'n gyson fel un o'r prif broblemau yn ein cymunedau, gyda data diweddar yn rhoi darlun aneglur ynghylch a yw'n cynyddu neu'n lleihau. Mae'n bryder gweledol ac yn niwsans, ond mae hefyd yn creu pryderon iechyd ynghylch lledaenu clefydau heintus i bobl, anifeiliaid anwes, bywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm.

Mae sawl ymyrraeth i fynd i'r afael â baw cŵn. Er bod biniau yn offeryn sydd yn boblogaidd gan y cyhoedd ac yn effeithiol, nid yw darparu a gwasanaethu biniau yn ymarferol ym mhobman. Dylai ymyriadau eraill fel sticeri a stensiliau llawr gael eu hystyried yn seiliedig ar y cyd-destun lleol.

Lle mae negeseuon yn cael eu defnyddio i dargedu pobl nad ydynt yn codi baw eu cŵn, mae negeseuon clir a chadarnhaol yn fwy effeithiol na chyfathrebu sy'n seiliedig ar orfodaeth. Mae pobl yn fwy tebygol o ymateb yn ffafriol i negeseuon ymddygiadol sy'n eu hannog i ddilyn normau cymdeithasol h.y. glanhau ar ôl eu ci, neu negeseuon y maen nhw'n gallu uniaethu â nhw ac yn fwy cadarnhaol yn emosiynol.

Mae darparu'r seilwaith iawn i alluogi pobl i roi eu baw cŵn yn y bin yn hanfodol, ac er bod biniau cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol pan fo hynny'n ymarferol, gall syniadau eraill gael eu harchwilio hefyd (fel darparu bagiau baw ci). Mae wedi mynd yn anoddach i breswylwyr waredu baw cŵn y cartref oherwydd casgliadau biniau du llai cyson ac felly, gallai gwasanaethau neu lwfansau newydd gael eu treialu i fynd i'r afael â'r materion hynny a'r canlyniadau, yn arbennig yn ystod misoedd yr haf pan mae storio gartref yn arbennig o amhleserus.

Yn ogystal. Mae ffyrdd arloesol o ymdrin â gwastraff cŵn unwaith y mae wedi mynd i mewn i'r ffrwd gwastraff yn cael eu hymchwilio a'u treialu. Y mwyaf addawol yw'r potensial i ddefnyddio abwydfeydd in-situ neu dreulio anaerobig, y byddai'n werth eu hystyried gyda digon o adnoddau, ond mae angen ymchwil, archwilio a phrofion pellach ar y ddau.

Mae gweithredu cymunedol a gwirfoddol yn profi i fod yn arwyddocaol yn mynd i'r afael â baw cŵn, ond mae'n rhaid eu rheoli a'u cefnogi'n gywir er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae enghreifftiau o weithredu ataliol ac ymatebol yn bresennol ledled Cymru a gallai gael ei ymestyn i fwy o awdurdodau lleol.

Yn olaf, er mai gorfodi fel arfer yw un o'r camau mwyaf poblogaidd gan y cyhoedd, mae'r adnoddau sydd eu hangen i greu ataliaeth trwy batrolau gweledol yn gyfyngol. Felly, argymhellir y dylai ymdrechion gorfodi mewn maes penodol fod yn anghyson ond yn eang neu ganolbwyntio ar fannau sy'n peri problem a mannau risg uchel.



CRYNODEB

Gallai'r gymuned hefyd helpu i weithredu fel gwyliadwraeth a thystiolaeth o safbwynt gorfodi. Os yw gorchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chŵn yn cael eu harchwilio, dylid bod yn ofalus i beidio cael effaith negyddol ar les cŵn.

Ar y cyfan, mae baw cŵn yn broblem barhaus sy'n cael effaith fawr ledled Cymru. Mae darparu biniau a gorfodi yn atebion poblogaidd ac effeithiol ond nid ydynt bob amser yn ymarferol oherwydd adnoddau a chyd-destun lleol. Er mwyn cael canlyniadau hirdymor, dylai treialon a negeseuon ddefnyddio egwyddorion newid ymddygiad, a dylai gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol fod yn flaenoriaeth. Dylai newidiadau i dargedau ailgylchu a chasgliadau gwastraff sy'n golygu ffyrdd newydd o ymdrin â ffrwd wastraff baw cŵn gael eu harchwilio hefyd.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Keep Wales Tidy
sbarc|spark, Maindy Rd, Cardiff CF24 4HQ

leq@keepwalestidy.cymru
keepwalestidy.cymru

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol!

facebook.com/keepwalestidy
instagram.com/keepwalestidy/
bsky.app/profile/keepwalestidy.cymru

© Hawlfraint Cadwch Gymru'n Daclus 2026